# AR OSOD

## Safle hen archfarchnad
## Tre Edwards, Rhymni NP22 5ET

***Gwahoddir cynigion a datganiadau o ddiddordeb ar gyfer y denantiaeth.***

| | |
|---|---|
| (i) | Nodir y manylion fel amlinelliad cyffredinol yn unig ar gyfer cyfarwyddyd i'r rhai dan sylw, ac nid ydynt yn gyfystyr nac yn rhan o gynnig neu gontract; |
| (ii) | Rhoddir holl ddisgrifiadau, dimensiynau, cyfeiriadau at gyflwr a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnyddio a meddiannu, a manylion eraill heb gyfrifoldeb ac ni ddylai unrhyw brynwyr posib ddibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychioliadau o ffaith ond mae'n rhaid iddynt fodloni eu hunain drwy arolygiad neu fel arall o ran cywirdeb pob un ohonynt; |
| (iii) | Nid oes gan unrhyw un a gyflogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili unrhyw awdurdod i wneud neu i roi unrhyw sylwadau i warantu unrhyw beth mewn perthynas â'r eiddo hwn; nid yw'r awdurdod hwn yn rhwym i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig. |

## LLEOLIAD
Cyfle i gaffael cytundeb tenantiaeth ar gyfer llain o dir yn Rhymni â'r potensial i'w ddefnyddio fel amgaefa ar gyfer storio, yn amodol ar gynllunio.

Yr eiddo yw safle hen siop Aldi, mewn ardal breswyl yn bennaf i'r gogledd-orllewin o dref Rhymni.

Mae Rhymni wrth droed Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae ffordd ddeuol yr A465, Ffordd Blaenau'r Cymoedd, tua 5km (3 milltir) i'r gogledd. Mae'r A465 yn cysylltu â'r M50, M5 a Chanolbarth Lloegr i'r dwyrain ac â ffordd ddeuol yr A470 sy'n cysylltu â chyffordd 32 yr M4 tua 25 milltir i'r de.

## DISGRIFIAD
Mae'r safle'n cynnwys llain wastad sy'n mesur tua 0.971 hectar (2.4 erw).

## GWASANAETHAU
Credir bod gwasanaethau prif gyflenwad yn agos iawn i'r safle. Rhaid i'r rhai dan sylw fodloni eu hunain ynghylch bodolaeth a chapasiti'r gwasanaethau drwy wneud eu hymholiadau eu hunain â'r cwmnïau cyfleustodau.

## YMWELD
Gellir gweld y safle o'r brif ffordd heb drefnu apwyntiad.




## CYNLLUNIO
Mae gan y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer defnydd manwerthu A1. Mae'r safle y tu mewn i ffin yr anheddiad, felly, gall fod yn addas ar gyfer amrywiol ddefnyddiau yn amodol ar gynllunio.

Cynghorir tenantiaid posibl i gysylltu ag Adran Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gael cyngor ynghylch y defnydd arfaethedig a'r angen i gael caniatâd cynllunio o ran newid defnydd.

## DEILIADAETH A THELERAU
Gwahoddir cynigion ar gyfer tenantiaeth ar delerau hyblyg.

## CYNLLUNIAU
Mae'r cynlluniau a'r ffotograffau yn y manylion hyn at ddibenion adnabod yn unig.

## FFIOEDD
Rhaid i bob parti fod yn gyfrifol am ei ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol ei hun yn y trafodion.




**MANYLION CYSWLLT**

EIDDO CORFFORAETHOL
Tŷ Penallta, Parc Tredomen
Ystrad Mynach CF82 7PG Ffôn: 01443 863405
eiddo@caerffili.gov.uk

CYNLLUNIO
Tŷ Tredomen, Parc Tredomen
Ystrad Mynach CF82 7WF Ffôn: 01443 866416
cynllunio@caerffili.gov.uk

PRIFFYRDD
Tŷ Tredomen, Parc Tredomen Ffôn: 01443 864914
Ystrad Mynach CF82 7WF
RheoliDatblyguPriffyrdd@caerffili.gov.uk

## TELERAU
**Gwahoddir cynigion am denantiaeth, ac ni fydd y cynigion yn cynnwys unrhyw ardrethi, TAW na'r Dreth Trafodiadau Tir, os yw'n berthnasol. Mae'r eiddo i'w rentu gyda meddiant gwag ar ôl cwblhau.**